

# Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd

## Crynodeb Weithredol

Mae Cyfarwydddeb Llifogydd y Comisiwn Ewropeaidd wedi'i thrawsosod i gyfraith y DU drwy Reoliadau Perygl Llifogydd (2009) a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. O dan Reoliadau Perygl Llifogydd (2009), mae'n rhaid i Gyngor Bro Morgannwg baratoi, a than Asesiad Cychwynnol o'r Perygl o Llifogydd, asesu canlyniadau niweidiol llifogydd y gorffennol a llifogydd posibl yn y dyfodol a nodi ardaloedd sydd mewn perygl o wynebu llifogydd sylweddol.

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi'i ddiffinio yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Paratowyd yr adroddiad hwn i fodloni dyletswyddau Cyngor Bro Morgannwg o ran rheoli perygl llifogydd yn lleol a chyflawni gofynion Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009).

Nod y broses hon yw darparu trosolwg lefel uchel o beryglon llifogydd gan ffynonellau llifogydd lleol, gan gynnwys dŵr wyneb, dŵr daear, cyrsiau dŵr arferol, camlesi a llynnoedd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd (AA) yn gyfrifol am gynnig Rheoliadau Perygl llifogydd ar gyfer Prif Afonydd a'r môr. Mae'n rhaid i'r Cyngor gyflwyno'r ACPL i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i'w adolygu erbyn 22 Mehefin 2011. Mae'r fethodoleg ar gyfer llunio'r ACPL yn seiliedig ar Ganllawiau ACPL Asiantaeth yr Amgylchedd a Chanllawiau Defra/LIC i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ar ddewis ac adolygu Ardaloedd Perygl Llifogydd ar gyfer ffynonellau llifogydd lleol.

Gan ddefnyddio'r meini prawf a nodwyd gan Defra/LIC ar sail trothwy o 5,000 o bobl, nid oedd unrhyw Ardaloedd lle y ceir Perygl o Llifogydd ym Mro Morgannwg. Mae'r Ardal Lle Ceir Perygl o Llifogydd a nodwyd yng Nghaerdydd yn effeithio ar y Fro ond yn dilyn ymgynghoriad gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Dinas a Sir Caerdydd mae ffin yr Ardaloedd Lle Ceir Perygl o Llifogydd wedi'u newid ychydig i adlewyrchu'r ffiniau gweinyddol perthnasol.

Bydd yr ardaloedd a nodwyd eu bod mewn perygl o lifogydd, ond nas nodwyd eu bod uwch na'r trothwy perygl llifogydd, yn ffurfio sail y strategaeth perygl llifogydd lleol, a ategir gan y gwaith parhaol o gasglu gwybodaeth am lifogydd a pheryglon llifogydd lleol.